# CYFARFOD COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU A GYNHALIWYD AR 10 MAWRTH 2015 YN NHŶ HASTINGS

**Yn bresennol:** Mr Owen Watkin (Cadeirydd); Mr Ceri Stradling; a, Mr David Powell.

**Swyddogion CFfDLC a oedd yn bresennol:** Mr Steve Halsall (Prif Weithredwr); Mr Matt Redmond (Dirprwy Brif Weithredwr); Mr David Carr (Rheolwr Cyllid); Mr Tom Jenkins (Swyddog Arolygu); Mr Ralph Handscomb (Swyddog Arolygu) a Miss Caroline Roe (Cynorthwyydd Swyddfa).

**Ymddiheuriadau:** Mrs Rachel Williams (Rheolwr Cymorth Busnes); Mr Ross Evans (Swyddog Arolygu)

**Amser dechrau:** 9:30 am
**Amser gorffen:** 11:50 am

## 1. Datganiadau o fuddiant

1.1. **Arolwg Cymunedol Rhondda Cynon Taf:** Roedd y Swyddog Arolygu sy'n cynnal yr arolwg wedi datgan buddiant fel preswylydd ac etholwr yn ward Pentre'r Eglwys yn Llanilltud Faerdref, a'i fod wedi byw y drws nesaf i gynghorydd y ward hon ers 20 mlynedd. Nododd y Comisiwn y datganiad, a hefyd nad oedd y Swyddog Arolygu yn bresennol yn y cyfarfod.

1.2. Ni wnaed unrhyw ddatganiadau eraill o fuddiant.

## 2. Cyhoeddiadau'r Cadeirydd

2.1. Cyhoeddodd y Prif Weithredwr fod yr hysbyseb i recriwtio Comisiynwyr ychwanegol newydd wedi'i chyhoeddi gan Lywodraeth Cymru ac wedi'i rhoi ar wefan y Comisiwn hefyd.

## 3. Cofnodion cyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ar 10 Chwefror 2015

3.1. **Penderfynwyd** cymeradwyo Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Chwefror 2015.

## 4. Materion yn codi

4.1. Ystyriwyd yr adroddiad dyddiedig 3 Mawrth gan y Prif Weithredwr.

4.2. **Penderfynwyd** derbyn yr adroddiad yn ei gyfanrwydd, a nodwyd y cynnydd diweddaraf ar y materion canlynol:

**Mater 1** **(Strategaeth TG)** rhoddodd y Prif Weithredwr ddiweddariad llafar. Mae holl gyfrifiaduron y Comisiwn i fod i gael eu diweddaru i Windows 7 gan Atos. Er gwaethaf rhai problemau cychwynnol, mae'r mater hwn yn mynd rhagddo ar hyn o bryd.

**Mater 7** **(Pwerau i Wneud Gorchmynion Cymunedol)** caiff y testun hwn ei flaenoriaethu a'i drafod â Llywodraeth Cymru yn ddiweddarach ym mis Mawrth.
**Gweithredu: Prif Weithredwr a'r Dirprwy Brif Weithredwr**

**Mater 9** **(Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth CFfG/CFfDLC) ystyriodd** y Comisiwn y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a **chytunodd** â'r ymateb yn amodol ar gynnwys darpariaeth yn ymwneud â gwariant ychwanegol a'i reoli.

**Mater 10** **(Grŵp Cynllunio Etholiadau)** rhoddodd y Prif Weithredwr ddiweddariad llafar yn ymwneud â'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Mawrth, yn ymwneud â phwerau newydd i Lywodraeth Cymru mewn perthynas ag etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol, ynghyd â diweddariad gan y Comisiwn Etholiadol yn ymwneud â chofrestru etholiadol unigol.

**Mater 15** **(Dogfen Fframwaith)** mae'r Comisiwn yn aros am ddiweddariad gan Lywodraeth Cymru. Codwyd y mater hwn â staff yr Is-adran Noddi yn ystod cyfarfod cyswllt yr Ysgrifenyddiaeth â Llywodraeth Cymru, a gynhaliwyd ar 24 Chwefror. Yr ymateb oedd bod y Ddogfen Fframwaith gyfredol dan ystyriaeth o hyd.

**Mater 16** **(Arolwg Cymunedol Sir y Fflint)** darparodd y Dirprwy Brif Weithredwr ddiweddariad llafar ar y cynrychiolaethau a gafwyd o ymgynghoriad Mynydd y Fflint.

**Mater 17** **(Enwau Parthau)** roedd diweddariad llafar gan y Prif Weithredwr yn cadarnhau y gwnaed y cais am enwau parthau, a bod y Comisiwn yn aros i'r rhain gael eu rhyddhau ar hyn o bryd.

**Mater 22** **(Penodi Comisiynwyr)** ystyriodd y Comisiwn y broses benodi, a nodwyd y byddai'r Cadeirydd yn cyfranogi yn y broses o lunio rhestr fer a'r broses gyfweld.

**Mater 30** **(Cylchlythyr)** rhoddodd y Prif Weithredwr ddiweddariad llafar yn cadarnhau bod y cylchlythyr wedi'i gwblhau ac wedi'i gyhoeddi ar wefan CFfDLC.

## 5. Papur Gwyn: Grym i Bobl Leol

5.1. Ystyriwyd yr adroddiad dyddiedig 2 Mawrth 2015 gan y Dirprwy Brif Weithredwr. Roedd yr adroddiad yn asesu'r Papur Gwyn a gyhoeddwyd ar 3 Chwefror mewn

agweddau lle y gallai effeithio ar y Comisiwn a'i weithrediadau.

5.2. **Ystyriodd** y Comisiwn sail yr ymateb drafft i'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn. **Cytunwyd** y byddai'r Dirprwy Brif Weithredwr yn ailddrafftio'r ymateb yn dilyn mân newidiadau, ac yn ei gylchredeg i Aelodau trwy'r e-bost er mwyn iddynt ei ystyried ymhellach a'i gymeradwyo.
**Gweithredu: Dirprwy Brif Weithredwr**

5.3 **Cytunwyd** y byddai'r ymateb terfynol yn cael ei arwain at Lywodraeth Cymru cyn y cyfarfod â Phrif Weinidog Cymru ar 21 Ebrill 2015.

5.4 Trafododd y Comisiwn y gwaith o baratoi tystiolaeth ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ar 12 Mawrth.

## 6. Arolwg Cymunedol Rhondda Cynon Taf

*Nododd y Comisiwn y Datganiad o Fuddiant a wnaed gan y Swyddog Arolygu*

6.1. Ystyriwyd yr adroddiad dyddiedig 24 Chwefror gan y Swyddog Arolygu ar yr Arolwg Cymunedol a gynhaliwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, ac awgrymiadau a wnaed gan yr Ysgrifenyddiaeth yn ymwneud ag aliniad manwl ffiniau a'r ffin rhwng Cwmbach a De Aberaman. Wrth wneud penderfyniadau, nododd ac ystyriodd y Comisiwn gynrychiolaethau a wnaed mewn perthynas â phedwar cynnig.

6.2. Ystyriodd y Comisiwn y newidiadau arfaethedig, a **chytunwyd ar y canlynol, yn <u>amodol ar baragraff 6.3 isod</u>:**

- Newid y ffin rhwng Cymunedau Llantrisant a Llanilltud Faerdref i drosglwyddo ardal orllewin Llanilltud Faerdref i Gymuned Llantrisant;
- Newid y ffin rhwng Cymunedau Llanilltud Faerdref a Llantrisant i amgáu ystad dai Cadwal Court yn gyfan gwbl yng Nghymuned Llanilltud Faerdref;
- Newid y ffin rhwng wardiau cymunedol Pentre'r Eglwys a Llanilltud Faerdref yng Nghymuned Llanilltud Faerdref i gynnwys 36 eiddo yn Nhŷ Crwyn yn ward Pentre'r Eglwys;
- Newid y ffin rhwng wardiau cymunedol Tonysguboriau a Thref Llantrisant yng Nghymuned Llantrisant i gynnwys yr ardal o'r enw y Graig yn ward Tref Llantrisant;
- Newid y ffin rhwng Cymunedau Llanilltud Faerdref a Llantrisant i gynnwys yr eiddo ar ystad dai Rowan Gardens ac ardal gyfagos yng Nghymuned Llanilltud Faerdref;
- Newid y ffin rhwng wardiau cymunedau Beddau a Thref Llantrisant yng Nghymuned Llantrisant i drosglwyddo 2 eiddo i ward Beddau;
- Newid y ffin rhwng Cymunedau Llantrisant a Phontypridd i drosglwyddo anheddiad Pen-y-Coed Cae i Gymuned Pontypridd;
- Newid y ffin rhwng wardiau cymunedol Pentre'r Eglwys a Llanilltud Faerdref yng Nghymuned Llanilltud Faerdref i gynnwys ystâd dai Meadow Farm yn ei

chyfanrwydd yn ward Pentre'r Eglwys;

- Newid y ffin rhwng wardiau cymunedol Pentre'r Eglwys a Llanilltud Faerdref yng Nghymuned Llanilltud Faerdref i drosglwyddo 2 eiddo i ward Pentre'r Eglwys;
- Newid y ffin rhwng Cymunedau Cwmbach a Dwyrain Aberpennar i drosglwyddo 7 eiddo i Gymuned Dwyrain Aberpennar;
- Newid Cymuned Aberaman i rannu'r gymuned ar hyd wardiau etholiadol presennol Gogledd Aberaman a De Aberaman i greu dwy gymuned ar wahân;
- Newid Cymuned Aberpennar i rannu'r gymuned ar hyd wardiau etholiadol presennol Dwyrain Aberpennar a Gorllewin Aberpennar i greu dwy gymuned ar wahân;
- Newid y ffin rhwng Cymunedau Cwmbach ac Aberaman i adlinio'r ffin i ddilyn ffordd a chylchfan yn hytrach na'r afon.

6.3. Ystyriodd y Comisiwn y newidiadau ôl-ddilynol i drefniadau etholiadol cymunedau a **chytunwyd** â'r rhain. Nodwyd bod y Comisiwn wedi gwneud mân newidiadau i aelodaeth arfaethedig cynghorau cymuned Cyngor Rhondda Cynon Taf ar gyfer sawl ward cymunedol yng nghymunedau Llanilltud Faerdref, Llantrisant a Phontypridd. **Cytunwyd** y dylid gwirio'r newidiadau hyn â Chyngor Rhondda Cynon Taf cyn eu mabwysiadu.
**Gweithredu: Swyddog Arolygu**

6.4. Penderfynwyd y byddai adroddiad drafft yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod mis Ebrill i'r Aelodau ei ystyried.
**Gweithredu: Swyddog Arolygu**

## 7. Pwerau'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus

7.1. Ystyriwyd yr adroddiad dyddiedig 23 Chwefror gan y Prif Weithredwr.

7.2. Ystyriodd y Comisiwn y ddogfen ymgynghori a'r newidiadau arfaethedig. Nodwyd nad oedd y newidiadau'n effeithio'n uniongyrchol ar y Comisiwn, ac y dylai unrhyw ymateb adlewyrchu hynny.

7.3. Cytunwyd y byddai'r Prif Weithredwr yn drafftio ymateb i'r ymgynghoriad.
**Gweithredu: Prif Weithredwr**

## 8. Llawlyfr Llywodraethu Corfforaethol

8.1. Ystyriwyd yr adroddiad dyddiedig 24 Chwefror 2015 gan y Prif Weithredwr. Roedd yr adroddiad yn amlygu newidiadau i'r Llawlyfr Llywodraethu Corfforaethol, a oedd yn cynnwys adran newydd yn ymwneud ag Is-bwyllgor y Gweithlu, a ffurfiwyd yn ddiweddar.

8.2. **Nododd** a **chytunodd** y Comisiwn ar yr adroddiad, yn amodol ar fân newidiadau.

## 9. Didwylledd ac Atebolrwydd

9.1. Ystyriwyd yr adroddiad dyddiedig 26 Chwefror 2015 gan y Prif Weithredwr. **Nodwyd** yr adroddiad gan y Comisiwn.

## 10. Cyfraith Etholiadol

10.1. Ystyriwyd yr adroddiad dyddiedig 20 Chwefror 2015, a'r ymateb drafft a luniwyd gan y Prif Weithredwr, a oedd yn ymwneud â rheoli apeliadau yn erbyn digonolrwydd gorsafoedd pleidleisio. **Nododd** a **chytunodd** y Comisiwn ar yr ymateb.

## 11. Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru – Rheoli Ymadawiadau Cynnar

11.1. Ystyriwyd yr adroddiad dyddiedig 19 Chwefror 2015 gan y Prif Weithredwr. **Nododd** y Comisiwn adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru, a fyddai'n cael ei ystyried fel rhan o'r Polisïau Staffio.

## 12. Holiadur Ôl-arolwg

12.1. Ystyriwyd yr adroddiad dyddiedig 3 Mawrth 2015 gan y Swyddog Arolygu.

12.2. **Penderfynwyd** y dylai'r holiadur gynnwys sawl newid, trwy gynnwys dau gwestiwn ychwanegol, gan gynnwys cam yr adroddiad y rhoddwyd sylwadau arno ac elfennau yn ymwneud ag arweiniad i ddefnyddwyr.

12.3. **Cytunodd** y Comisiwn ar fformat yr arolwg, yn amodol ar y newidiadau cytûn.
**Gweithredu: Swyddog Arolygu**

## 13. Contractau Caffael

13.1. Ystyriwyd yr adroddiad dyddiedig 3 Mawrth 2015 gan y Rheolwr Cymorth Busnes, a oedd yn amlinellu'r ymarferion tendro diweddar a chynigion llwyddiannus canlyniadol ar gyfer contract argraffu'r Comisiwn a'r contract archwilio mewnol.

13.2. **Nododd** y Comisiwn yr adroddiad a'r cynigion llwyddiannus ar gyfer contractau a ddewiswyd gan y byrddau tendro.

13.3. Holodd y Comisiwn ynghylch y dull ar gyfer addasu'r ffioedd a gynhwyswyd yn y cynnig llwyddiannus ar gyfer contract ar i fyny. **Penderfynwyd** awdurdodi'r Dirprwy Brif Weithredwr i egluro'r dull ar gyfer cynyddu.

## 14. Llythyr Cylch Gwaith 2015-16

14.1. Ystyriwyd yr adroddiad dyddiedig 2 Mawrth 2015 gan y Prif Weithredwr. Nododd y Comisiwn gynnwys y Llythyr Cylch Gwaith gan y Gweinidog, a nodwyd bod y Prif Weithredwr wedi anfon llythyr i'w gydnabod.

14.2. **Cytunwyd** y byddai Cynllun Gweithredol yn cael ei ddrafftio i gynnwys gofynion y Llythyr Cylch Gwaith, ac y byddai'n cael ei gyflwyno yng nghyfarfod mis Ebrill
**Gweithredu: Prif Weithredwr**

## 15. Rheoli Risg

15.1 Ystyriwyd yr adroddiad dyddiedig 27 Chwefror 2015 gan y Rheolwr Cyllid. **Nododd** y Comisiwn yr adroddiad a **chymeradwyodd** y Gofrestr Risg a Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd 2014-15, yn dilyn newidiadau i risg CR7, y gofynnwyd amdanynt yng nghyfarfod y Comisiwn ym mis Chwefror.

## 16. Adroddiad Cyllidol

16.1 Ystyriwyd yr adroddiad dyddiedig 27 Chwefror 2015 gan y Rheolwr Cyllid. **Nododd** y Comisiwn yr adroddiad a'r sefyllfa bresennol o ran y tanwariant amcangyfrifedig ar ddiwedd y flwyddyn.

16.2 **Nododd** y Comisiwn ildio £30,000 arall i Lywodraeth Cymru o gymorth grant 2014-15, a'r effaith y byddai hyn yn ei chael ar gategorïau'r gyllideb.

16.3 **Nodwyd** bod y Prif Weithredwr wedi ysgrifennu at yr isadran noddi yn gofyn am gael dwyn cyllid drosodd ar gyfer anfonebau diweddaru meddalwedd gan Atos. Roedd y Comisiwn yn aros am ymateb Llywodraeth Cymru yn dilyn y cais hwn. Cytunwyd y dylid ceisio ymateb crys gan yr isadran noddi
**Gweithredu: Rheolwr Cyllid**

## 17. Adroddiad Cynnydd ar Arolygon

17.1 Ystyriwyd yr adroddiad dyddiedig 3 Mawrth 2015 gan y Dirprwy Brif Weithredwr. **Penderfynodd** y Comisiwn nodi'r canlynol:

17.2 **Arolwg Cymunedol Sir y Fflint:** Y dyddiad cau ar gyfer derbyn cynrychiolaethau yw 22 Ebrill 2015, a chafwyd 8 cynrychiolaeth hyd yn hyn.

17.3 **Arolwg Cymunedol Caerdydd:** Rydym yn aros i'r cynigion terfynol gael eu cyflwyno i'r Comisiwn ym mis Ebrill 2015.

17.4 **Arolwg Cymunedol Sir Fynwy:** Mae'r Cyngor yn trafod p'un a ddylid gohirio ei arolwg ar hyn o bryd. Disgwylir i'r Comisiwn gael cadarnhad maes o law.

17.5 **Arolwg Cymunedol Castell-nedd Port Talbot:** Cafodd y Comisiwn fapiau arfaethedig gan y Cyngor yn amlygu'r newidiadau y mae'n bwriadu ymgynghori arnynt. Mae'r Comisiwn yn aros am y cynigion drafft llawn, yn dilyn y cyfnod ymgynghori.

17.6 **Arolwg Cymunedol Sir Gaerfyrddin:** Rydym yn aros i'r adroddiad drafft gael ei gyhoeddi yn dilyn cyfnod ymgynghori parhaus a fydd yn dod i ben ar 3 Ebrill.

17.7 **Arolwg Cymunedol Bro Morgannwg:** Mae'r Cyngor wedi ysgrifennu at y Comisiwn yn gofyn i'r arolwg ddechrau ym mis Hydref 2015. Trefnir cyfarfod rhwng y Comisiwn a swyddogion y Cyngor.

## 18. Calendr digwyddiadau

18.1 Nodwyd yr adroddiad.

## 19. Unrhyw fater perthnasol arall

19.1 Ystyriwyd yr ymgyrch recriwtio aflwyddiannus ddiweddar ar gyfer Swyddog Arolygu ychwanegol.

19.2 **Cytunwyd** y dylid ymestyn yr ymarfer am fis arall er mwyn rhoi mwy o gyfle i ymgeiswyr wneud cais.

**20. Dyddiad y cyfarfod nesaf:** Dydd Iau 16 Ebrill 2015